O nefol addfwyn Oen

Caneuon Ffydd: Rhif 312

O nefol addfwyn Oen,
    sy'n llawer gwell na'r byd,
a lluoedd maith y nef
    yn rhedeg arno'u bryd,
dy ddawn a'th ras a'th gariad drud
sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd.

Noddfa pechadur trist
    dan bob drylliedig friw
a phwys euogrwydd llym
    yn unig yw fy Nuw;
'does enw i'w gael o dan y nef
yn unig ond ei enw ef.

Ymgrymed pawb i lawr
    i enw'r addfwyn Oen,
yr enw mwyaf mawr
    erioed a glywyd sôn:
y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Dyma emyn sydd o dan drefniant newydd gan Sioned Williams (a'i cyfansoddodd pan oedd yn dair ar ddeg oed) yn parhau mor ganadwy ag y bu erioed. Sôn am y mawl diddiwedd sydd i'r Oen yn y nef mae Pantycelyn, ac yn hynny o beth mae'n adleisio llawer o gynnwys llyfr y Datguddiad. Mae Duw yn ei ddatguddiad i Ioan yn dangos iddo, ac yntau wedyn i ninnau, fod y nefoedd yn fan lle ceir mawl parhaus, gyda phob llygad sydd yno wedi ei gyfeirio at yr orsedd. Un o'r pethau cyntaf sy'n taro Ioan am y weledigaeth a gaiff o'r nefoedd ydy'r ffordd mae'r Duwdod yn cael ei ganmol.

Ym mhennod 4 y Datguddiad – Duw y Creawdwr sy'n cael ei ganmol, ac yna ym mhennod 5 mae'r Oen yn dod yn wrthrych yr addoliad. Mae pob creadur yno yn addoli Duw y Creawdwr a'r Oen. Mae'r 'lluoedd maith' sydd yno 'yn rhedeg arno'u bryd' a'i rinweddau yn 'llanw'r nef', ond hefyd yn 'llanw'r byd'. Un o'r pleserau pennaf ar y ddaear gan yr un sy'n credu yn Iesu Grist yw cael ymgolli mewn mawl i Dduw, ond gellir disgrifio ein mawl ni yma ar y ddaear ond fel rihyrsal cyn mynd i Gymanfa y cyntaf-anedig.

Yn ogystal â bod yn destun mawl y nefoedd a'r ddaear, mae'r Oen hefyd yn ein gwasanaethu ninnau, ac yn 'Noddfa pechadur trist', yn dwyn ein beichiau ni. Cofiwn i Eseia gyhoeddi: 'Ni fydd yn dryllio corsen ysig, nac yn diffodd llin yn mygu' (Eseia 42:3). Mae digon o feichiau a digon o drallodion gan blant dynion yn barod; ni fydd yr Arglwydd yn ychwanegu atyn nhw. Y diafol sy'n ein hatgoffa o'n methiannau a'n ffaeleddau; eu maddau a'u hanghofio mae Duw pan ddown â nhw ato ef: 'cyn belled ag y mae'r dwyrain o'r gorllewin y pellhaodd ein pechodau oddi wrthym' (Salm 103:12).

Cyhoedda Pantycelyn wedyn, fel y cyhoeddodd sawl tro yn ei waith, nad oes enw arall yn dod yn agos at un Iesu Grist, yr addfwyn Oen; ef yn unig all gymryd ein heuogrwydd a'n bai, gan roi inni heddwch a'u cyfnewid am ei gyfiawnder a'i obaith ef ei hun. Gan hynny, gallwn ninnau ddatgan â llef uchel gyda'r 'myrdd myrddiynau' a'r 'miloedd ar filoedd' yn y nef: '"Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl."' (Dat. 5:11–12). Nid gwneud y tro yn niffyg neb gwell mae Iesu Grist, ond mae'r Tad yn gwbl fodlon ynddo ac mae'n gwbl deilwng o bob clod, mawl, parch a bri, a'i eiddo ef ei hun yw'r 'enw mwyaf mawr erioed a glywyd sôn'.

GWEDDI

Dad nefol, rwy'n gweld yr addoliad sydd ar lafar ohonot ti a dy Fab, yr addfwyn Oen, ac yn diolch bod gen i ran yn barod yn y mawl yma ar y ddaear ac y caf barhau i roi clod a mawl a pharch a bri i ti byth bythoedd am fod lle wedi ei gadw i mi yn y nefoedd trwy waed yr Oen. Amen.